



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 15 -
COMIN DOWROG A CHOMIN
TRETIO**



Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ardal fewndirol o iseldir agored sydd ychydig yn donnog, i'r gogledd ddwyrain o Dyddewi, gyda dwy ardal fawr o dir comin, Comin Dowrog a Chomin Tretio, a hen faes awyr milwrol Tyddewi yn y de.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Iseldir sy'n cynnwys tirwedd tir fferm agored ychydig yn donnog, gydag ardaloedd o brysg a glaswelltir corsiog hwnt ac yma. Y mwyaf ohonynt yw Comin Dowrog. Mae'r dirwedd yn cynnwys ffermydd gwasgareddig ac mae hen Faes Awyr Tyddewi i'r de o'r ardal yn cael effaith arwyddocaol ar y dirwedd. Mae'r golygfeydd a fenthycwyd o fryniau nodedig Carn Llidi yn ffurfio'r gorwel lleol i'r gogledd orllewin gan ychwanegu at yr ymdeimlad o le.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys gwaun sych, glaswellt y bwla a gweundir gwlyb. Mae'r ardal yn cynnal rhywogaethau pwysig fel y dyfrgi, y chwistlen ddŵr, y dylluan glustiog, hebog yr ieir, y cudyll bach, bras y gors, pili-pala brith y gors ac, yn brin iawn, alarch Bewick, sy'n dod yma dros y Gaeaf. Mae yna nifer o fathau o blanhigion prin hefyd, gan gynnwys y tegeirian llydanwyrdd bach.

Nodweddion Daearegol

Basn llydan a dyffrynnoedd cysylltiedig gydag arwyneb gwastad neu ychydig bach yn donnog, a ddominyddir gan rewgleiau (Chwaternaid:Pleistosenaid). Mae'r tir deheuol gerllaw yn codi ychydig tuag at y gorllewin, i ffurfio cromen isel tua 75m yn ardal Tyddewi. Dominyddir y creigwely gan greigiau igneaid Cyn-gambriaidd.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna feddrodau siambr, crugiau crwn, meini hirion a henebion Cristnogol Gynnar, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Yn archeolegol, mae'r ardal yn debyg iawn i weddill Pentir Tyddewi.

Mae'r ardal o gwmpas anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi yn dirwedd archeolegol gyfoethog, gydag olion o gynhanes. Mae'r ANT yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi.



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
15	Comin Dowrog a Chomin Tretio	30-Uchel 31-Canolig	95-Canolig 100-Canolig	524-Uchel 672-Canolig 779-Uchel 917-Eithriadol 949-Uchel 996-Canolig	42273-Eithriadol 42274-Eithriadol 42276-Eithriadol 42277-Eithriadol 42279-Eithriadol	004-Eithriadol 819-Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isele:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae gan yr ardal agored hon, sydd ychydig yn donnog, gymeriad agored iawn sy'n cynnwys brithwaith o dir fferm, glaswelltir corsiog a phrysg
- Cyfoethogir ei chymeriad gan olygfeydd i'r gogledd-orllewin at fryniau nodedig Carn Llidi ac i'r de orllewin tuag at ddinas Tyddewi
- Mae yna gynefinoedd yma sy'n bwysig yn rhyngwladol sy'n cyfrannu at werth ecolegol uchel llawer o'r ardal
- Mae'r cyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol a gofnodwyd yma yn bwysig yn genedlaethol ac yn arwain at dirwedd o werth eithriadol. Mae gan y ffermydd a'r pentrefannau gwasgaredig arwyddiant pensaernïol gryf iawn sy'n cyfrannu'n gryf iawn at yr ymdeimlad o le yma. Mae yna elfennau archeolegol tebyg iawn i ANT Pentir cyfagos Tyddewi - tirwedd hanesyddol o werth eithriadol
- Mae pwysigrwydd cynhanesyddol y dirwedd hon yn briodoledd allweddol, ac mae rhai elfennau eithriadol sydd wedi goroesi yn arwydd fod y dirwedd hon wedi ei anheddu ers miloedd o flynyddoedd. Cydnabuwyd hyn yn ffurfiol yn y ffaith ei bod wedi ei chynnwys o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi. Mae yna dystiolaeth helaeth, wedi'i chadw'n dda, o ddefnydd tir a gweithgarwch defodol a chrefyddol dwys o gynhanes ymlaen, gan gynnwys beddrodau siambr ac aneddiadau Neolithig, caerâu o'r Oes Haearn a systemau caeau o fewn y Dirwedd Hanesyddol hon.
- Mae'r gwerth diwylliannol yn eithriadol, yn rhinwedd ei safle mewn perthynas â dinas eglwys gadeiriol Tyddewi. Mae Comin Dowrog a Chomin Tretio yn elfennau pwysig yn rheolaeth amaethyddol draddodiadol y dirwedd. Cefnogir y gwerth diwylliannol hwn ymhellach gan eu caffaeliad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Mae yna Ardal Gadwraeth ym mhentrefan bach hirsefydlog Caerfarchell (dynodwyd ym Mawrth 1997), sydd, yn anarferol, wedi'i chanoli ar fan gwyrdd agored.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos ei bod mewn cyflwr dirywiol. Dros gyfnod o amser mae'r ardal wedi dioddef diraddiad yn y glaswelltir corsiog sydd, serch hynny, yn dal i fod yn weddol gyflawn.

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod graddau a chymeriad ardaloedd o rostir a glaswelltir garw, trwy reoli da byw mewn ffordd briodol. Peidiwch â chaniatáu i dir amaethyddol wedi'i wella ymestyn i ardaloedd o weundir a glaswelltir garw.
- Gwarchod y cymeriad brithwaith ac amaethyddol, a rheoli perthi ffiniau cae'n briodol ar sail gylchol, reolaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau bod cynefinoedd gwaun gwlyb a glaswelltir corsiog yn parhau i fod mewn cyflwr ffafriol
- Monitro effeithiau llosgi a phori ar lystyfiant
- Ystyried defnydd priodol ar gyfer yr adeiladau fferm hanesyddol yn y dyfodol, ar ddiwedd eu hoes amaethyddol, a sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol yn parchu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 16 - CARN LLIDI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ucheldir hynod o nodedig a ddiffinnir yn gryf gan y morlin gerllaw, sy'n ffurfio'r ffin ogleddol a gorllewinol a'r copaon caregog, sy'n diweddu gyda Phenmaendewi ar y pen mwyaf gorllewinol.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae Carn Llidi yn cynnwys dwy ardal o gopaon bryniau a'r ardal fwy - sy'n cynnwys Carn Llidi a Charnedd-lleithr - sy'n nodweddiadol o'r ardal yn ogystal â sawl copa llai i'r gogledd ddwyrain, sy'n ffocysu ar gopa Carn Penberi. Elfennau nodedig iawn yw'r copaon bryniau caregog agored gyda chaeau a rhostir/tir pori garw gyda banciau perthi amlwg ar eu ffiniau is. Mae ardaloedd uwch yn cynnig golygfeydd panoramig o'r clogwyni arfordirol cyfagos.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae yna amrywiaeth o gynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, gan gynnwys gweunydd sych, a gweundir gwlyb gyda gwaun croesddail. Mae cynefinoedd blaenoriaeth y CGBLI yn cynnwys glaswellt y bwla a phorfa frwynaidd, gweundir isel, clogwyni a llethrau morol. Mae'r ardal yn cynnal rhywogaethau pwysig gan gynnwys y frân goesgoch, yr hebog tramor, cennau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin.

Nodweddion Daearegol

Mae gan yr arfordir gyfeiriadaeth GorDeGor-DwGogDw yn gyffredinol. Mae yna dri bryncyn caregog mawr, nodedig â llethrau serth- Carn Llidi, Carn Perfedd/Carnedd Lleithr a Charn Penberi. Mae'r ardal yn cynnwys cwm cul sy'n gwahanu Carn Llidi rhag y cribyn caregog sy'n ffurfio Penmaendewi ei hun. Mae'r llethrau i'r dwyrain a'r de yn fwy ysgafn. Ffurfi clegrau o greigiau igneaidd mewnwithiol (dolerit-gabro) gyda llechi Ordoficaidd rhyngddynt. Mae yna glogwyni caregog ar ochr ogleddol Penrhyn Tyddewi rhwng Penmaendewi ac Abermawr. Mae ardaloedd o flaendraeth caregog yn gyfyngedig iawn ac wedi'u datblygu'n bennaf o amgylch ychydig gildraethau bach, a'r mwyaf nodedig ohonynt yw Bae Abereiddi.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Tirwedd arbennig o bwysig o gynhanes, sy'n cynnwys systemau cae, beddrodau siambr ar Garn Llidi a Phenmaendewi, a chaer o'r Oes Haearn, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ardal o gwmpas anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi yn dirwedd archeolegol gyfoethog sydd ag olion o gynhanes Mae'r ANT hon yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru Ynys Dewi a Phentir Tyddewi. .

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaeregol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
16	Carn Llidi	25 - Eithriadol 26 - Uchel 28-Canolig	87 - Canolig 90-Eithriadol	396-Eithriadol 440-Uchel 787-Eithriadol 996-Canolig	42267-Eithriadol 42268-Eithriadol 42279-Eithriadol	004-Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae yna naws agored treiddiol sy'n cael ei greu gan y brigiadau caregog noeth ar gopa'r bryniau a'r diffyg llystyfiant tal, ac ymdeimlad o bellnigrwydd. Mae'r llinell o ffermydd gwasgaredig ar hyd y tarddlin ar y llethrau is yn dangos ymateb pobl i'r dinoethiad i wyntoedd o'r gogledd-orllewin oddi ar y môr. Mae pensaernïaeth gynhenid nodedig gogledd Sir Benfro yn amlwg iawn, fel yn ANT Comin Dowrog a Chomin Tretio gerllaw
- Mae yna olygfeydd panoramig o draethau a chlogwyni arfordirol sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad arfordirol o le
- Mae'r dirwedd yn ymddangos yn naturiolaidd ac heb ei difetha i raddau helaeth ac mae ganddi gynefinoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac o werth eithriadol
- Mae'r cyfoeth o nodweddion archeolegol a hanesyddol a gofnodwyd gerllaw yn bwysig yn genedlaethol ac o werth eithriadol. Dyma dirwedd bwysig iawn o gynhanes sydd â nodweddion sy'n cwmpasu miloedd o flynyddoedd o ddefnydd ac aneddiad sydd heb gael eu gorchuddio'n gryf gan ddefnydd tir modern. Cydnabuwyd hyn yn ffurfiol yn y ffaith ei bod wedi ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi. Mae yna dystiolaeth helaeth, wedi'i chadw'n dda, o ddefnydd tir a gweithgarwch defodol a chrefyddol dwys o'r cyfnod cynhanes, gan gynnwys anheddiad a beddrodau siambr Neolithig, caerâu o'r Oes haearn a systemau cae.
- Mae yna gyfeiriad diwylliannol pwysig at nawdd sant Cymru oherwydd Penmaendewi ac mae yna olygfeydd clir ar draws y tir isel rhyngforol tuag at ddinas Tyddewi a'i heglwys gadeiriol. Cefnogir y gwerth diwylliannol ymhellach gan y darn parhaus mawr o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd arfordir gogleddol yr ardal, sy'n cynnwys copaon y bryniau
- Mae gan yr ANT werthoedd eithriadol wedi eu cofnodi ar draws pob agwedd.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos fod yna gyflwr cyson o reolaeth lefel isel ar gyfer pori'n bennaf
- Mae gan rai o'r perthi nifer uchel o waliau cynnal cerrig sy'n nodwedd leol, ond maen nhw'n adfeiliedig mewn manau am nad ydynt wedi cael eu rheoli'n gyson ac mewn ffordd briodol
- Mae'r meysydd carafán sy'n gysylltiedig â gweithgarwch twristaidd y Porth Mawr gerllaw wedi llechfeddiannu ffin de orllewin yr ANT hon.

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y brigiadau caregog a'r ardaloedd cysylltiedig o bori garw a rhostir
- Osgoi unrhyw welliannau amaethyddol eraill i ardaloedd naturiolaidd ar frigau'r bryniau. Peidiwch â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir a phori garw
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau nad yw'r rhedyn yn llechfeddiannu cynefinoedd glaswelltir a gweundir mwy gwerthfawr trwy ddulliau rheoli priodol
- Rheoli olion cymhleth a phwysig o gynhanes, cadw'u cyfanrwydd a'u gosodiad gweledol yn benodol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daeregol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Gwarchod y naws trwy barchu'r bensaernïaeth benodol leol wrth ystyried unrhyw ddatblygiadau
- Gwella cymathiad meysydd carafannau presennol i'r dirwedd trwy drin ffiniau'n sympathetig a phlannu i sgrinio ble'n briodol, trwy gytundeb
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 17 - TYDDEWI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Mae'r ANT hon wedi ei thynnu'n dynn o amgylch ardal drefol dinas Tyddewi, gydag estyniad i'r de orllewin i lawr dyffryn yr Afon Alun, Merry Vale, dolen gyswllt hirsefydlog o'r ddinas i'r môr ym Mhorth Clais a dolen drafnidiaeth bwysig ar gyfer trafnidiaeth fasnachol ar anterth y diwydiant cynhyrchu calch yn yr ardal. Ardal drefol yn bennaf, tua 50m UDO, yng nghanol tirwedd o iseldir tonnog Pentir Tyddewi.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae Tyddewi'n ddinas fach ddeniadol, a'i ffocws yw'r adeiladau hanesyddol sy'n fan canol pwysig o fewn y dirwedd amaethyddol ac arfordirol o'i chwmpas, er bod ei safle yn isel yn y dyffryn afon yn golygu nad ydyw'r eglwys gadeiriol yn dominyddu'r ddinas na'r dirwedd leol. Mae gan y ddinas ymdeimlad graddfa fach ac mae twristiaeth yn dominyddu'r math o leoliadau adwerthu ac arlwyo. Mae'r eglwys gadeiriol, a'i hardaloedd muriog cysylltiedig, yn fan ffocws pwysig sy'n helpu diffinio'r cymeriad a'r ymdeimlad o le.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Yn bennaf, mae'r ardal drefol yn cynnwys ffurfiau adeiledig gyda rhai ardaloedd agored o laswelltir. Dyma dirwedd frithwaith sy'n cynnwys prysg trwchus, glaswelltir sydd wedi'i wella i raddau, rhedyn a glaswelltir corsiog. Mae cynefinoedd blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cynnwys glaswellt y bwla a phorfa frwynaidd. Mae'r ardal yn cynnal nifer o adar gan gynnwys yr hebog tramor a'r frân goesgoch.

Nodweddion Daearegol

Dyma ardal sy'n cael ei darlunio gan ddyffrynnoedd, ac mae'n codi'n raddol o'r arfordir i'r de, ac o'r dwyrain, i ffurfio cromen isel tua 75m UDO yn ardal Tyddewi. Mae'r ardal o amgylch yn debyg i lwyfan. Mae yna ardal is o lwyfand arfordirol hefyd, tua 35-40m UDO, yn ardal Bae Caerfai. Dominyddir y ddaearog solid gan graig Cyn-Gambriaidd igneaidd i'r de. Mae gan Merry Vale gwrs afon fwy cul mewn dyffryn sydd â llethrau serth sy'n llifo heibio i Dyddewi i'r môr ym Mhorth Clais. Mae ei tharddiad mewn ardaloedd corsiog llydan i'r de ddwyrain o fasiff Carn Llidi. Mae yna ardaloedd o orlifdir cul hefyd (Chwaternaidd: Holosen). Dominyddir y creigwely gan graig Gyn-gambriaidd igneaidd.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna byllau, leiniau, gwrthgloddiau, odyrau calch a chapeli Canoloesol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Oherwydd y cysylltiadau gyda nawdd sant Cymru, mae'r ddinas yn bwysig iawn yn nhirwedd ddiwylliannol Cymru a'r byd Cristnogol ehangach. Mae yna gysylltiadau hanesyddol a diwylliannol cryf gyda'r dirwedd o gwmpas ANT Pentir Tyddewi. Mae gan ddinas Tyddewi Ardal Gadwraeth, a ddynodwyd yn gyntaf yn 1977 ac a ymestynnwyd yn 1995; mae'n cwmpasu llawer o graidd yr hen ddinas ac yn cwmpasu clos yr eglwys gadeiriol, a'r manau o amgylch, gan orwedd yn y dyffryn i'r gorllewin a'r gogledd orllewin o'r hen ddinas. Mae'r ANT hon yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru Ynys Dewi a Phentir Tyddewi.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
17	Tyddewi	33 - Uchel 28 - Canolig	93 - Canolig 100 - Canolig	575 - Canolig 775 - Isel	42272 - Eithriadol 42275 - Eithriadol 42281 - Eithriadol	004 - Eithriadol 150 - Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Uchel: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
- Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Diffiniwyd yr ANT hon gan ffurf drefol y ddinas ei hun, gydag ychwanegiad dyffryn Merry Vale. Mae lleoliad y prif safle eglwysig ar lawr y dyffryn â chysylltiad cryf at Merry Vale a'r ddolen gyswllt hanesyddol at y môr ym Mhorth Clais
- Mae yma ymdeimlad cryf iawn o le ac mae natur a maint adeilad mawreddog yr eglwys gadeiriol yn creu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hirsefydlog yr anheddiad hwn yn hanes Cymru. Yr adeiladau a'r nodweddion Canoloesol yng nghlos yr eglwys gadeiriol yw'r nodwedd graidd sy'n diffinio'r ardal
- Mae gan Dyddewi, a'r ardal o'i hamgylch, dirwedd hanesyddol o werth eithriadol a gellir dadlau ei bod o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd ei phwysigrwydd o fewn yr eglwys Gristnogol. Mae'r ddinas wrth galon Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi, ac maen nhw'n ei hystyried fel un o'r ardaloedd diwylliannol pwysicaf yng Nghymru, fel Gwlad Dewi
- Mae presenoldeb mawreddog yr eglwys gadeiriol yn atgof gweledol o bwysigrwydd y ddinas i'r oes sydd ohoni, yn niwylliant Cymru. Oherwydd cysylltiad y ddinas gyda nawdd sant Cymru mae'r ardal hon o werth a phwysigrwydd diwylliannol eithriadol yng Nghymru, ac yn gyrchfan i bererinion hyd heddiw.
- Mae yna Ardal Gadwraeth fawr (a ddynodwyd yn 1977 ac a ymestynnwyd yn 1995) ac mae'n cwmpasu hen graidd y ddinas ac yn ymestyn i lawr i mewn i'r dyffryn i'r gorllewin a'r gogledd orllewin o'r canol, gan gwmpasu'r eglwys gadeiriol, a'i chlos, a'r olion mynachaid.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae gan ddatblygiadau diweddar ar gyrion gogleddol a dwyreiniol y ddinas, yn arbennig, gysylltiad gweledol isel gyda'r dirwedd tu hwnt, trwy ffurf, lleoliad a gosodiad ansympathetig rhai o'r ardaloedd preswyl
- Oherwydd cynllun a lleoliad gwael yr adeiladau ar gyrion y ddinas ar y mwyafrif o'r pwyntiau mynediad, nid oes fawr o synnwyr eich bod wedi cyrraedd dinas sydd mor bwysig, yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, yng Nghymru.
- Ond, gwelwyd newid positif yn y cymeriad lleol o ganlyniad i Ganolfan Ymwelwyr Tyddewi, a adeiladwyd yn diweddar, ar gyrion dwyreiniol hen graidd y ddinas.

Canllawiau Rheoli

- Cynnal cyfanrwydd adeiladau hanesyddol a safleoedd archeolegol gyda phwyslais penodol ar eu lleoliad gweledol
- Cynnal y cymeriad dinas traddodiadol, trwy gynllunio datblygiadau i sicrhau eu bod yn unol â chymeriad y ffurf adeiledig draddodiadol a chadw cydbwysedd rhwng anghenion ymwelwyr a thrigolion
- Gwarchod arddull gynhenid yr adeiladau cerrig gyda thoeon llechi / toeon wedi eu growtio, a sicrhau bod lleoliad, ffurf, gosodiad, defnyddiau adeiladu a gorffeniadau adeiladau newydd, neu adeiladau sy'n cael eu hailwampio, yn addas i gymeriad y ddinas. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y 'pyrth' i'r ddinas ble mae adeiladau o'r fath yn creu argraff gyntaf bwysig ar y rheiny sy'n ymweld am y tro cyntaf
- Adfer cyrion yr anheddiad fel eu bod yn fwy sympathetig i'r Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru, o amgylch, gyda phwyslais arbennig ar symud yn hwylus o'r ymyl trefol i gefn gwlad agored
- Annog gwaith cynnal a chadw cylchol rheolaidd ar gyfer ffiniau waliau cerrig a pherthi, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Gwarchod elfennau o'r cymeriad amaethyddol traddodiadol yn y dirwedd ehangach trwy leoli, ffurfio a dewis defnyddiau adeiladu ar gyfer adeiladau amaethyddol newydd, yn ofalus
- Gwarchod ac adfer yr hen gei ym Mhorth Clais, gyda'i greiriau diwydiannol pwysig o'r diwydiant calch, yn ôl yr angen
- Cynnal systemau naturiol a sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion neu ddyddodion sy'n bwysig o ran geomorffoleg neu ddaeareg yn cael eu difrodi neu eu dinistrio
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 18 - PENTIR TYDDEWI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Darn mawr o iseldir tonnog a'r ardal arfordirol gysylltiedig o glogwyni a thraethau ar ran helaeth o'r pentir.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae'r Ardal Agwedd fawr hon ar bentir Tyddewi yn cynnwys tirwedd sy'n nodweddiadol o orllewin Sir Benfro, gyda thir fferm ychydig yn donnog SYDD â chymeriad agored. Mae'r tir uwch yn cynnig golygfeydd o fewn y Maes Agwedd a golygfeydd hygyrch a fenthycwyd o'r arfordir ac Ynys Dewi, bryniau nodedig Carn Llidi i'r gogledd a thuag at adeiladau yn ninas Tyddewi - gan gynnwys yr Eglwys Gadeiriol - sydd oll yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le. Nodwedd o'r arfordir yw'r gyfres o glogwyni danheddus tal a llethrau serth, pentiroedd caregog ar raddfa fach a chilfachau gyda thraethau tywodlyd.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys gweundir sych a gwlyb, glaswellt y bwla a phorfeydd brwynaidd, a chors. Dominyddir y morlin gan glogwyni a thraethau caregog. Mae yna system dwyni tywod greiriol




Nodweddion Daearegol

Llwyfan arfordirol sy'n ffurfio rhan ddaeareol pentir deheuol penrhyn Tyddewi, a ddominyddir gan arwyneb gwastad i fyny at tua 50-60m UDO gyda pheth twmpathau lleol, eang ac isel. Dominyddir y ddaeareg gan greigiau folcanig Cyn-gambriaidd gyda rhewglai i'r gogledd ddwyrain. Tir ychydig yn donnog i'r gorllewin o afon Solfach yn codi i tua 90m. Dominyddir gan lechi a thywodfaen Cambriaidd gyda Chyn-gambriaidd i'r gogledd ddwyrain. Cromen isel tua 75m yn ardal Tyddewi. Hefyd yn cynnwys ardal isel o lwyfan arfordirol tua 35-40m yn ardal Bae Caerfai. Dominyddir gan graig igneaidd Cyn-Gambriaidd gyda Chambriaidd i'r de. Mae yna adran arfordirol enwog sy'n cynnwys amlygiadau pwysig o greigiau Cambriaidd ac Ordoficaidd. Dominyddir gan glogwyni môr, heb unrhyw ardaloedd o flaendraeth caregog, neu ardaloedd cyfyngedig o'r fath, fel arfer. Yn lleol, mae gan gildraethau draethau tywodlyd ac mae ceg sawl ria bach i'w gweld hefyd.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Yn ogystal â beddrodau siambr a chrugiau crwn, mae yna feini hirion, bryngaer o'r Oes Haearn a henebion a chapeli helaeth o'r Oes Gristnogol Gynnar, y cyfan o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ardal o amgylch anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi yn dirwedd archeolegol gyfoethog sy'n cynnwys olion o gynhanes, a hefyd tystiolaeth o gyfnodau diweddarach. Mae'r ANT hon yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi.

Nodiant y Map:

-  Ffin y Parc Cenedlaethol
-  Ffin yr ANT
-  Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearogol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
18	Pentir Tyddewi	25- Eithriadol 28 - Canolig 29- Eithriadol	86 - Canolig 89 - Uchel 92-Eithriadol 97-Canolig 98 - Canolig 100 - Canolig	490- Uchel 575 - Canolig 582 - Uchel 511- Uchel 633- Canolig 641 - Eithriadol 836 - Uchel 888- Uchel 957 - Uchel 996 - Canolig	46225-Eithriadol 42269-Eithriadol 42270-Eithriadol 42273-Eithriadol 42279-Eithriadol	004 - Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- I raddau helaeth, dyma amgylchedd gwledig, agored, eithaf heddychlon gyda golygfeydd deniadol o'r arfordir a'r eglwys gadeiriol yn Nhyddewi
- Mae yna dri darn o wlypdir a gweundir isel gydag ardaloedd o ddŵr sy'n sefyll, elfen brin yn y Parc Cenedlaethol. Mae yma gynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, yn enwedig glaswelltiroedd a gwaun isel
- Mae yna gyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol sy'n bwysig yn genedlaethol ac sy'n arwain at dirwedd o werth hanesyddol eithriadol. Mae yna enghreifftiau da o dai cynhenid nodedig Sir Benfro gyda'u rhannau allanol a'u simneiau crwn enfawr
- Mae'r digonedd o safleoedd Cristnogol cynnar yn bwysig. Mae gan y Porth Mawr, yn arbennig, gysylltiadau cryf gyda Thyddewi, ac mae hyn yn rhannol ddyledus i safle capel pererinion San Padrig yn y cae tu ôl i'r traeth. Byddai hwn wedi bod yn bwynt glanio pwysig i gychod y rheiny a fyddai wedi dod ar bererindod i Dyddewi ar y môr.
- Mae'r cysylltiadau gyda dinas eglwys gadeiriol Tyddewi yn hynod o bwysig yn niwylliant Cymru ac wrth wraidd gwerth diwylliannol eithriadol yr ardal hon. Cefnogir y gwerth diwylliannol ymhellach gan y darn parhaus mawr o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd penrhyn Pen Dal-aderyn, sy'n rhedeg tua'r dwyrain i Borth Clais a thu hwnt i Solfach. Cydnabuwyd hyn yn ffurfiol gan y ffaith iddi gael ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi. Mae yna dystiolaeth helaeth, wedi ei chadw'n dda, o ddefnydd tir a gweithgarwch defodol a chrefyddol dwys o gynhanes ymlaen, gan gynnwys anheddiad a beddrodau siambr Neolithig, systemau cae a chaerau o'r Oes Haearn.
- Clegyr Boia yw'r unig enghraifft yn Sir Benfro o anheddiad domestig Neolithig, amddiffynfa gaerog ar frigiad bryn caregog i'r gorllewin o Dyddewi.


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos fod yr ardal mewn cyflwr cyson o ddefnydd amaethyddol cymysg o ffermio â'r da byw
- Mae gan rai o'r unedau fferm adeiladau amaethyddol diweddar sy'n anghydweddol ar y dirwedd hon, a'r adeiladau fferm cynhenid traddodiadol

Canllawiau Rheoli

- Unrhyw feysydd carafán a gynigir - neu estyniadau i safleoedd presennol - i'w lleoli er mwyn cadw'r effaith weledol i leiafswm o fewn y dirwedd. Rhaid iddynt hefyd barchu pwysigrwydd hanesyddol yr ardal hon; lliniaru effeithiau gweledol presennol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad perthi traddodiadol a waliau cerrig ar ffiniau cae, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig, a rheoli perthi ar sail gylchol, reolaidd
- Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir isel a sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol yn parhau pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Sicrhau bod lefelau pori'n briodol i'r cynefinoedd gweundir a glaswelltir pwysig sydd o bwysigrwydd ecolegol. Cynyddu'r ardaloedd o brysg gors a glaswelltir arfordirol heb eu rheoli
- Archwilio cyflwr ardaloedd o laswelltir twyni ac edrych ar ffyrdd o wella'u gwerth
- Ystyried defnydd priodol ar gyfer adeiladau fferm hanesyddol unwaith y bydd eu hoes economaidd wedi dod i ben
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, na chollir unrhyw nodweddion daearogol na geomorffolegol pwysig ac na chânt eu difrodi
- Hybu dehongliad priodol ar gyfer olion o gynhanes, gyda chyfeiriad penodol at Glegyr Boia, yr unig enghraifft yn Sir Benfro o anheddiad domestig Neolithig
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 19 - YNYS DEWI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ynys drawiadol sy'n agos i'r prif dir i'r de orllewin o Dyddewi. Mae'n nodweddiadol am ei chlogwyni arfordirol caregog a'r brigiadau caregog ar y copa, a wahenir gan sianel gul gyda llanwau cryfion.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae gan yr ynys lefelau datblygiad isel iawn ac mae wedi'i gorchuddio, gan fwyaf, mewn glaswelltir ac ardaloedd o brysg, sy'n rhoi cymeriad deniadol heb ei ddifetha a chysylltiad arfordirol cryf i'r ardal. Mae'r morlin yn cynnwys cyfres o glogwyni danheddus tal a llethrau serth, gyda brigiadau caregog tolcio cyfatebol.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys gweundir isel, glaswelltir asid sych isel, glaswellt y bwla a phorfa frwynaidd, clogwyni morol, traethau caregog a stormdraethau agored. Mae Ynys Dewi'n cynnal nifer o rywogaethau pwysig gan gynnwys y frân goesgoch, yr ehedydd, yr hebog tramor, y morlo llwyd, rhywogaethau prin o anifeiliaid di-asgwrn-cefn a chytrefi pwysig o adar môr. Cofnodwyd aeron meryw hefyd ar y clogwyni serth sy'n wynebu'r de.

Nodweddion Daearegol





Mae gan Ynys Dewi glogwyni môr caregog ac ardaloedd lleol o flaendraeth a thraethau. Dominyddir y creigwely gan greigiau folcanig Ordoicaidd, gyda chreigiau llaid o lechi a thywodfaen i'r gogledd ddwyrain.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna gapel Canoloesol ac mae yna grugiau crwn sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. O'r 13eg ganrif, roedd Ynys Dewi'n rhan werthfawr o ystad Esgobol Tyddewi ac mae ffermio â'r wedi parhau tan y blynyddoedd diweddar. Mae hyn bron wedi dileu unrhyw olion o systemau cae cynharach, sydd fwy na thebyg o gynhanes. Mae'r ANT hon yn gorwedd gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi.

Mae ynysoedd oddi ar y lan arfordir Penfro yn bwysig yn rhyngwladol am eu treftadaeth naturiol, ysblennydd, amrywiaeth eu cynefinoedd a'u rhywogaethau, a'r dystiolaeth archeolegol.

Nodiant y Map:

-  Ffin y Parc Cenedlaethol
-  Ffin yr ANT
-  Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol
- 



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyaidd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
19	Ynys Dewi	25 - Eithriadol 93 - Eithriadol	85 - Eithriadol	297 - Eithriadol 536 - Uchel 735- Uchel 892 - Eithriadol	42282-Eithriadol 42283-Eithriadol	636-Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae ynysoedd oddi ar y lan Sir Benfro o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd eu treftadaeth naturiol drawiadol, amrywiaeth eu cynefinoedd a'u rhywogaethau, a'r dystiolaeth archeolegol. Mae Ynys Dewi'n enghraifft wych, gyda'r gyfres lawn o'r priodoleddau hyn
- Mae yna naws treiddiol o noethni a gwylltineb, o fod 'ar yr ymyl', yn y dirwedd arfordirol ddigyffro sydd â golygfeydd helaeth o'r arfordir o amgylch
- Mae'r synnwyr hynod o bellennig a'r naws arfordirol cryf yn bwysig iawn, law yn llaw gyda gallu'r ynys i ennyn chwylfrydedd a thuedd i eisiau croesi'r dŵr ac archwilio'r tir sydd tu hwnt i'r prif dir ac wedi'i amgylchynu gan y môr, ac mae hyn yn fwy heriol oherwydd y ffordd y mae'r llanw'n rasio'n gryf trwy'r sianel gul
- Mae gan Ynys Dewi werthoedd eithriadol ar draws pob un o'r Agweddau o'r dirwedd a werthuswyd.
- Cydnabuwyd ei phwysigrwydd hanesyddol yn ffurfiol gan y ffaith iddi gael ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi
- Mae gan ANT Ynys Dewi ddigonedd o werthoedd eithriadol wedi eu cofnodi ar draws pedair Agwedd.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r ardal mewn cyflwr cyson o ran ei rheolaeth a'i chyflwr.

Canllawiau Rheoli

- Monitro graddau tyfiant y rhedyn, a'i rheoli yn ôl yr angen, i warchod y cynefinoedd gweundir a glaswelltir
- Cael gwared ar lygod mawr a'u hatal rhag cytreffi eto
- Sicrhau bod y perygl o lygredd dŵr yn cael ei gadw i leiafswm
- Gwarchod y cynefinoedd clogwyni arfordirol, y glaswelltir arfordirol a'r gweundir, a'u ffawna cysylltiedig, cyhyd ag sy'n gynaliadwy yng nghyddestun grymoedd naturiol erydiad a newid arfordirol
- Gwarchod cymeriad arfordirol 'heb ei ddifetha' yr ynys, trwy osgoi datblygiadau adeiledig neu ddefnydd tir sydd allan o gymeriad
- Cynnal gwerth bywyd gwyllt yr ardal fel gwarchodfa adar y mae modd i'r cyhoedd ei mwynhau, i raddau sydd wedi eu rheoli, trwy fynediad wedi'i rheoli
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol na geomorffolegol yn cael eu colli, eu difrodi na'u gwneud yn anhygyrch (e.e. Oherwydd datblygiad, neu trwy gyfyngiadau amhriodol o ganlyniad i'r ffocws ar warchod adar ar yr ynys)
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 20 - TREFIN



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Dyma ANT arfordirol, llinol, fawr sy'n rhedeg tua'r de o fryn caregog amlwg Garn Fawr i'r de orllewin, i ben dwyreiniol brynau Carn Llidi, i fyny at Garn Penberi ond heb ei chynnwys. Mae'r clogwyni caregog bron yn barhaus, a hwnt ac yma mae yna gilfachau a chindraethau cysgodol fel Abereiddi, Porthgain ac Abercastell. Mae hanes hir o chwarelu ar hyd yr arfordir hwn ac mae'n dylanwadu ar leoliad a ffurf adeiledig y pentref arfordirol.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Ar y darn hwn o arfordir ceir cyfres o glogwyni danheddus tal a llethrau serth, gydag ambell frigiad caregog danheddog, sy'n cyferbynnu gyda'r cilfachau mwy cysgodol rhyngddynt. O gopaon y clogwyni ceir golygfeydd estynedig i'r gogledd a'r de ar hyd yr arfordir. Mae'r gefnfro'n dirwedd amaethyddol, braidd yn donnog, o gaeau canolig, gyda pherthynas weledol agos gyda'r arfordir cyfagos. Hwnt ac yma ar hyd yr ardal mae yna ffermydd gwasgarog ac ambell bentrefan a phentref bach. Mae yna ardaloedd gwasgareddig o glystyrau coetir ac eangderau o goetir a phrysg.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Cynefinoedd yn cynnwys ffeniau, gwelyau cyrs, gweundir isel, clogwyni morol, traethau caregog a thywodlyd. Rhywogaethau pwysig yn cynnwys hebog tramor, brain coesgoch, morloi llwyd, gwiber, madfallod, dyfrgwn a




Nodweddion Daearegol

Yn y gogledd, mae yna arwyneb arfordirol sydd ar oledf ysgafn ac sydd wedi datblygu i'r gogledd o gribyn Croesgoch-Mathry. Mae'n codi i tua 90m UDO tua'r dwyrain ond yn cynnwys llwyfan tua 60m yn ardal Abercastell, sy'n cael ei dorri gan ddyffryn Abercastell. Dominyddir yr ardal ddeheuol gan gribyn hir, isel gyda brigau crwn a chyfeiriadaeth GorDeGor-DwGogDw. Mae'n codi i tua 130m UDO, yn disgyn i'r gogledd tuag at lwyfan arfordirol a hefyd i'r de, tuag at fasn Comin Tretio, sydd wedi'i lenwi gan ddriff. Mae'n cynnwys bryncyn creigiog nodedig Carn Penberi. Dominyddir daeareg y creigwely gan lechi Ordoficaidd a nodwedd o'r arfordir yw craig laid Ordoficaidd.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae'r rhan o'r ANT hon sydd yn y man mwyaf de orllewinol yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi. Mae yna henebion o gynhanes, beddrod siambr, crugiau crwn o'r Oes Efydd, bryngaerau o'r Oes Haearn, henebion Cristnogol cynnar a safleoedd archeolegol diwydiannol, pob un o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae yna fryngaer Rhufeinig-Brydeinig/Oes Haearn mewn sawl man, a'r harbwr diwydiannol ym Mhorthgain. Mae mewn ardal sydd dan bwysedd sylweddol gan berchnogion ail gartrefi, fel rhai ardaloedd eraill o'r Parc Cenedlaethol. Mae perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnwys dwy ardal ger Sant Nicolas, eraill ger Porthgain ac Abereiddi. Mae ardal fwyaf gogledd ddwyreiniol yr ANT hon yn cynnwys adran fach o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwbwl.

Nodiant y Map:

-  Ffin y Parc Cenedlaethol
-  Ffin yr ANT
-  Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan Ffin y Parc Cenedlaethol

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaeargol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
20	Trefin	24 - Uchel 25 - Eithriadol 91 - Canolig	90 - Eithriadol 105 - Eithriadol 106 - Canolig 107 - Uchel 111 - Canolig	385 - Uchel 405 - Canolig 409 - Canolig 440 - Uchel 672 - Canolig 740 - Canolig 804 - Uchel 827 - Canolig 873 - Uchel 995 - Eithriadol 996 - Canolig	46059-Uchel 46060-Uchel 46066-Eithriadol 46086-Eithriadol 42279-Eithriadol	004 - Eithriadol 512 -Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Uchel: Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Canolig: Bwysigrwydd Lleol
- Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Tirwedd arfordirol agored ac amrywiol gyda golygfeydd helaeth ar hyd y morlin
- Mae yna gymeriad setledig hirsefydlog cryf, sy'n deillio o aneddiadau graddfa fach a ffermydd gwasgareddig o fewn tirwedd tir fferm donnog sy'n fugeiliol yn bennaf. Mae yna bensaernïaeth gynhenid leol sy'n nodedig iawn, gydag adeiladau o gerrig a thoeon o lechi / wedi'u growtio
- Diffiniwyd patrwm y caeau yn dda ac mae'n rhoi gwedd cyfoethog i'r dirwedd agored, ble mae ardaloedd bach o goetir a phrysg yn rhannu'r dirwedd. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y banciau perthi a'r waliau cerrig sych sy'n creu ffiniau cae traddodiadol, ac mae ansawdd eu cyflwr o ganlyniad i arferion rheoli yn elfen sy'n diffinio'r dirwedd
- Mae yna lond lle o gynefinoedd yma sy'n bwysig yn genedlaethol, yn enwedig cynefinoedd gweundir isel a chlogwyni arfordirol. Aseswyd y clogwyni ar hyd mwyafrif arfordir yr ANT hon fel rhai sydd o werth eithriadol, a chefnogir hyn gan ddynodiad dros 50% o'r morlin fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Mae'r cyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol sydd yma, o gynhanes i'r gorffennol diwydiannol diweddar, yn cyfrannu at werth hanesyddol eithriadol llawer o'r dirwedd hon, peth ohoni o bwysigrwydd cenedlaethol. Ar ben mwyaf gogleddol yr ANT hon, mae yna ran fach o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl. Mae'r pentir mawr a nodedig hwn yn ffurfio tirwedd sy'n gryfder o elfennau o barhad a goroesiad hanesyddol o'r cyfnod cynhanes ymlaen.
- Mae'r olion diwydiannol ar raddfa tirwedd gyfan, ac yn cynnwys y 'lagwn glas' eiconig yn Abereiddi a'r hopranau ym Mhorthgain. Mae'r darn o arfordir rhwng Abereiddi a Phorthgain yn daith trwy hanes diwydiannol, gyda chwarelau cerrig, bythynnod y gweithwyr, tŷ'r rheolwr, tramffyrdd a glanfeydd, sydd oll yn cyfrannu at stori'r dirwedd
- Mae yna Ardaloedd Cadwraeth yn Nhrefin (dynodwyd Awst 1997), sy'n cynnwys safle o bwysigrwydd hanesyddol palas yr esgob, ac ym Mhorthgain (dynodwyd Tachwedd 1997) i gydnabod treftadaeth ddiwydiannol graddfa fawr - yn enwedig yr harbwr, odyrau calch a strwythurau cysylltiedig - y pentref harbwr a physgota bach hwn. Roedd y rhain, a strwythurau cynharach â chysylltiad at chwarelu am lechi, gan gynnwys yr odyr galch, yr harbwr a Pilots House, yn rhoi cymeriad hanesyddol unigryw i Borthgain. Yn dilyn adolygiad o'r Ardal Gadwraeth yn 2019, mae'r ffin wedi ei hymestyn i gynnwys y dirwedd ddiwydiannol sydd yn uniongyrchol i'r gorllewin, yn cynnwys caeau agored a phentir arfordirol, amrywiaeth o strwythurau unigol, archaeoleg wedi'i chladdu a'r hen Chwareli Pen Clegyr.


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos bod y dirwedd sy'n cael ei ffermio mewn cyflwr cyson o ran rheolaeth a chyflwr. Mae yn amrywio ar draws yr ardal ond r math o reolaeth, a'i ddwyser, helaeth, i natur amaethyddol yr ardalystyrir ei fod yn addas, i raddau
- Mae'r broses o reoli ffiniau cae yn amrywio'n lleol.
- Mae erydu arfordirol yn Abereiddi wedi hawlio llawer iawn o'r tir sy'n arwain at yr amddiffynwyr ychwanegol ar hyd rhan o'r maes parcio ac mae adlinio a reolwyd o'r ochr ogleddol wedi creu tirwedd wahanol. (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod golygfeydd helaeth ar hyd y morlin a natur ddigyffro'r clogwyni a'r cilfachau
- Cadw a gwarchod clystyrau ac eangderau o goetir fel elfennau gweledol pwysig i rannu'r dirwedd; hybu'r broses o ailblannu gyda rhywogaethau llydanddail
- Cynyddu ardaloedd o brysg eithin a phorfa arfordirol heb ei reoli, ond peidio â chaniatáu i redyn lechfeddiannu gweundir isel a glaswelltiroedd arfordirol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau bod lefelau pori yn ddelfrydol er mwyn i frith y gors a mathau o degeirianau ffynnu
- Peidio â gadael i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i ardaloedd o weundir isel a glaswelltiroedd arfordirol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol na geomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Sicrhau bod olion diwydiannol yn weledol ac yn ddealladwy
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 21 - PEN CAER/PEN STRWMBWL



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Yn ei hanfod, darn o ucheldir a chlogwyni arfordirol i'r gogledd orllewin o Abergwaun, ble mae presenoldeb darn mawr o arfordir yn cynnig ymdeimlad cryf o le.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Yng ngogledd orllewin arfordir Penfro ceir clogwyni caregog danheddog helaeth, gyda phantiadau siarp ailadroddus yn ffurfio pentiroedd a chilfachau bach onglog. Mae copa'r clogwyni'n llawn o laswelltir arfordirol a phrysg. Mae'n ardal o dirwedd amaethyddol uchel gyda phatrymau cae wedi'u diffinio'n dda a phori bras agored ar yr ardaloedd uwch. Yn yr ardaloedd uwch hyn ceir copaon bryniau caregog agored mewn brithwaith o laswelltir garw a llystyfiant rhostir. Hwnt ac yma ar draws yr ardaloedd is mae yna aneddiadau bach gwasgaredig a ffermydd, yn benodol, yng nghanol y dirwedd amaethyddol. O gopa'r bryniau ceir golygfeydd panoramig o Fynyddoedd y Preseli i'r dwyrain, ac ar hyd yr arfordir, sy'n ychwanegu at y cymeriad lleol.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Nodweddion Daearegol




Y morlin caregog rhwng Wdig ac Aberbach, yn cynnwys penrhyn Pen Strwmbwl. Clogwyni môr yn codi i tua 120m UDO i'r gorllewin o Harmony, ond yn is yn ardal Wdig, ble datblygwyd y glannau yn borthladd. Yn gyffredinol, mae ardaloedd o flaendraeth caregog yn gul iawn neu'n absennol, hyd yn oed mewn cildraethau. Dominyddir y creigwely gan lechi Ordoficaidd a chreigiau folcanig. Mae yna lwyfan arfordirol a llethrau ar ochr ogleddol masiff Llanwnda. Dominyddir gan ffedog o rewglai i'r de (Chwaternaidd: Pleistosenaid) sy'n teneuo tua'r gogledd, gan ddatgelu amlygiadau o greigwely folcanig Ordoficaidd mewn llain ger y clogwyni, yn cynnwys ffurfiau dyffryn bas.


Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna systemau cae a cherrig ac arysgrifen arnynt, o gynhanes, caerau o'r Oes Haearn, beddrodau siambr a gwrthgloddiau Canoloesol, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ANT gyfan hon o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl.

Mae'r ANT hon yn cynnwys goleudy Pen Strwmbwl. Mae'n ardal sy'n dod o dan bwysedd dwys o ganlyniad i berchnogion ail gartrefi.

Nodiant y Map:

-  Ffin y Parc Cenedlaethol
-  Ffin yr ANT
-  Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
21	Pen Caer/ Strumble Head	22 - Eithriadol 23 - Uchel 24 - Uchel	80 - Uchel 91 - Eithriadol	436 - Canolig 568 - Canolig 662-Uchel 730 - Canolig 827 - Canolig 975 - Uchel	46061-Eithriadol 46063-Eithriadol 46065-Eithriadol 46066-Eithriadol	512-Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae gan yr ANT hon werthoedd eithriadol wedi eu cofnodi ym mhedair o'r pum Agwedd o'r dirwedd a werthuswyd.
- Ardal helaeth o dir fferm a rhostir agored, gwyllt gyda golygfeydd deniadol o'r clogwyni arfordirol caregog a Mynyddoedd y Preseli
- Mae yna synnwyr cryf o amlygrwydd a phellenigrwydd yma, o ganlyniad i'r codiad uchel, y llystyfiant prin, yr agosatrwydd at y môr a phatrwm gwasgarog yr anheddiad
- Mae yna sawl safle hanesyddol ac archeolegol nodedig, ac o ganlyniad i'r rhain mae'r ANT hon o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae ganddi werthoedd eithriadol yn yr Agweddau tirwedd hanesyddol a diwylliannol.
- Dyma dirwedd sydd ag olion eithriadol o gynhanes, yn enwedig ar y tir fferm ymylol. Fwy na thebyg mai'r gaer o'r Oes Haearn yng Ngarn yw'r nodwedd fwyaf amlwg, yn ffisegol ac yn ganfyddiadol, ac mae'n sefyll ger caer arall o'r Oes Haearn yn Ngarn Fechan.
- Cydnabuwyd pwysigrwydd hanesyddol y dirwedd hon gan y ffaith ei bod wedi ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl. Mae'r pentir mawr a nodedig hwn yn creu tirwedd sy'n gryf o ran elfennau o barhad a goroesiad hanesyddol, o bosib o'r cyfnod cynhanes hwyr ymlaen. Mae'n arddangos ffurfiau nodedig o anheddiad Cymreig ac yn cynnwys tystiolaeth wirioneddol ac awgrymedig ar gyfer archeoleg yr eglwys gynnar yng Nghymru, sydd wedi'i chadw mewn henebion sy'n sefyll a safleoedd ôl cnwd
- Mae'r ardal o bwysigrwydd diwylliannol, yn genedlaethol, a dyma leoliad yr ymosodiad olaf ar brif dir Prydain yn y 18fed Ganrif (1797).

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae lefel y gofal a roddir i'r ynys yn amrywio, ac ar gopa'r bryniau sy'n agored mae'n llai dwys, yn addas ddigon. Mae'n ymddangos bod yr ardal mewn cyflwr gweddol gyson, er gwaethaf y dirywiad blaenorol a welwyd am fod rhostir wedi ei drawsnewid yn dir fferm.

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod ardaloedd uchel o rhostir a phori garw trwy reoli da byw mewn ffordd addas
- Ystyried troi tir fferm ar dir uwch yn ôl yn rhostir, os yw'r cyfle'n codi
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd gyda phwyslais arbennig ar hybu'r gwaith o adfer neu ailsefydlu waliau cerrig a ffiniau cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig.
- Peidiwch â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir neu ardaloedd eraill o llystyfiant arfordirol lled-naturiol sensitif
- Sicrhau nad ydyw rhedyn yn llechfeddiannu cynefinoedd gweundir a glaswellt mwy gwerthfawr trwy hybu dulliau rheoli mwy addas
- Monitro pwysedd erydiad gan ymwelwyr a sicrhau bod erydiad llwybrau troed yn cael ei gadw i leiafswm
- Cynnal y systemau cae hanesyddol sydd yma a sicrhau nad ydyw rheoli tir neu ddatblygiad tir yn cael effaith niweidiol ar nodweddion hanesyddol ac archeolegol pwysig, gan gynnwys eu lleoliad gweledol.
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad ydyw unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u niweidio
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.